



Cyfarfod

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

Dyddiad ac Amser

10.30 y.b., DYDD GWENER, 21AIN TACHWEDD, 2025

Lleoliad

Cyfarfod Rhithiol

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

Lowri Haf Evans

01286 679 878

lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD: 13-11-25)

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

AELODAETH

Cyngor Gwynedd
Cynghorwyr:
Elfed Wyn ap Elwyn
Louise Hughes
Elin Hywel
Anne Lloyd Jones
Eryl Jones-Williams
Gwilym Jones
Dewi Owen
Gwynfor Owen
Richard Glyn Roberts
Sedd wag – Plaid Cymru

Craig ab Iago – Aelod Cabinet Amgylchedd

Cyngor Sir Ceredigion
Sedd wag

Cyngor Sir Powys
Cyngorydd Alwyn Evans

Aelod Cyfetholedig:

Aled Williams
Aled Jones-Griffith
Ann Elias
Chris Wilson
Sedd wag
Claire Williams
Cyngorydd Meryl Roberts
Cyngorydd Alun Wyn Evans
Sedd wag -
Cyngorydd Trevor Roberts
David Crunkhorn
David Thorp
Delwyn Evans Grwp
Joyce Watson
Liz Saville Roberts
Mabon ap Gwynfor
Cefin Campbell
Bill Redfern
Lorraine Simkiss

Ysgol Ardudwy
Coleg Meirion Dwyfor – Grwp Llandrillo Menai
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Ceredigion
Rheilffordd Ffestiniog
Partneriaeth Rheilffordd Cambrian
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Cymru
Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru
Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth
Trenau Arriva Cymru
Ysgol Uwchradd Tywyn
Mynediad Meirionnydd
Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru
Aelod Seneddol Llyw Prydain - Dwyfor Meirionnydd
Aelod Senedd Dwyfor Meirionnydd
Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cymdeithas Teithwyr Amwythig - Aberystwyth
Rheilffordd Talylyn

Swyddogion:

Gail Jones
I'w gadarnhau
Rhian Williams
Tomos Davies

Trafnidiaeth Cymru
Network Rail
Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd
Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

RHAGLEN

1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2025/26

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2025/26

2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2025/26

I ethol Is-gadeirydd ar gyfer 2025/26

3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried

6. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 28ain o Fawrth 2025 fel rhai cywir

7. DERBYN DIWEDDARIADAU GAN WASANAETHAU

I dderbyn diweddariad gan gynrychiolwyr:

- Network Rail
- Trafnidiaeth Cymru
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

8. CWESTIYNAU FFURFIOL

8 - 12

I ystyried ymatebion i gwestiynau a dderbyniwyd ers y cyfarfod diwethaf.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf:

Mawrth 27ain 2026 10:30am

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

28ain Mawrth 2025

Cyfarfod Rhithiol

Presenoldeb:

Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd) – Cadeirydd y cyfarfod yma yn unig
Cyng. Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Elin Hywel (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Meryl Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
Bill Redfern (Cymdeithas Trenau Teithwyr Amwythig – Aberystwyth)
Lorraine Simkiss, Kate Day a Barbara Fuller (Rheilffordd Tal-y-llyn)
Shane Brennan (Swyddfa Plaid Cymru – Dwyfor Meirionnydd)
Gail Jones (Trafnidiaeth Cymru)
Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth Cyngor Gwynedd)

1. YMDDIHEURIADAU:

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd), Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd), Cyng. Elfed Wyn ab Elwyn (Cyngor Gwynedd), Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyng. Richard Glyn Roberts (Gwynedd), Cyng. Alwyn Evans (Cyngor Sir Powys), Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig / Aberystwyth), Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd), Mabon ap Gwynfor (AS Dwyfor Meirionnydd), Llio Hughes (Swyddfa Plaid Cymru), Delyth Griffiths (Swyddfa Plaid Cymru, Dolgellau), Joyce Watson (Aelod Seneddol Canolbarth a Gorllewin Cymru), Gwyn Rees a Tomos Roberts (Network Rail) a Clare Britton (Rheilffordd Ffestiniog).

Nodwyd bod y Cyng. Alwyn Evans wedi ei benodi fel cynrychiolydd Cyngor Sir Powys.

Nodwyd bod Tomos Roberts (Network Rail) wedi cael swydd newydd ac mai Gwyn Rees fyddai'n cynrychioli'r cwmni i'r dyfodol agos. Diolchwyd i Tomos am ei gefnogaeth i'r Pwyllgor.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

4. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 29ain o Dachwedd 2024 fel rhai cywir

5. DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU

Trafnidiaeth Cymru (TrC)

Croesawyd Gail Jones i'r cyfarfod

Rhannwyd fideo o waith diweddar Trafnidiaeth Cymru ar Reilffordd y Cambrian oedd yn cynnwys gwaith peirianeg o adnewyddu traciau, cryfhau arglawdd a gweithgareddau cynnal a chadw allweddol rhwng yr Amwythig a Machynlleth o 21/3/25 hyd 3/4/25.

Gwnaed cais am fideo Gymraeg ac i'r fideo gael ei rhannu gyda'r Aelodau fel bod modd iddynt ei rhannu ar gyfryngau cymdeithasol eraill.

Adroddwyd bod yr aflonyddwch diweddar o ganlyniad i ddamwain yn Nhalerddig Hydref 2024 wedi dod i ben 21/3/25 gyda threnau erbyn hyn yn rhedeg rhwng y Drenewydd ac Aberystwyth a Machynlleth i Bwllheli.

Amlygwyd yr effaith ar blant sy'n mynychu Ysgol Uwchradd Tywyn ac eraill sy'n teithio i'r Coleg yn Y Drenewydd oherwydd cau ffyrdd a chau rheilffordd ar yr un pryd. Nodwyd bod rhai myfyrwyr heb allu mynychu'r coleg am bythefnos gan aros adref i weithio, ond heb allu gwneud gwaith ymarferol. Nododd y Cadeirydd, bod y gwyn yn un dilys yn creu effaith sylweddol ar bobl leol. Pan fydd gwasanaethau ffyrdd a rheilffyrdd yn cau mae'n gwneud bywyd yn anodd i bobl mewn ardaloedd gwledig, gyda'r gwyriadau'n hir iawn a'r gwasanaeth bws yn aneffeithiol.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nodwyd bod y gwaith oedd yn cael ei weithredu yn hanfodol gyda Network Rail wedi ei gynllunio ymlaen llaw.

Diolchwyd i Gail am ei chyfraniad

Amserlen 2025 – 2026

Tynnwyd sylw at ostyngiadau yn amserlen Gaeaf Rheilffordd y Cambrian gan nodi bod colled y trên olaf yn un sylweddol i'r economi leol a'r sector lletygarwch. Er bod Llywodraeth Cymru yn ceisio annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, oherwydd diffyg gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig, mae'n rhaid defnyddio ceir, ac wrth ddiddymu gwasanaeth y trên ola far y Cambrian, ystyriwyd bod hyn yn mynd yn groes i bolisiau Llywodraeth Cymru.

Ategodd rhai Aelodau bod nifer o fusnesau wedi cael eu heffeithio oherwydd colled bod gwasanaeth y trên olaf wedi dod i ben, gan nodi bod sefydliadau megis y Magic Lantern yn Nhywyn a Theatr y Ddraig, Abermaw wedi gorfod aildrefnu llawer o'i digwyddiadau. Nodwyd hefyd bod yr effaith ar rai yn "eithaf dinistriol." Ystyriwyd bod y gwasanaeth gaeaf eisoes yn annigonol a'r cysylltiadau rhwng pentrefi a threfi, erbyn hyn yn amhosib. Cyfeiriwyd at y teithiau undydd (megis taith i'r Amwythig am y diwrnod), ac at deithwyr yn treulio nosweithiau ym Mhwllheli, Abermaw neu Aberdyfi, sydd bellach yn amhosibl. Nodwyd bod diffyg dealltwriaeth neu werthfawrogiad o'r hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau oherwydd yr hyn sy'n cael ei reoli gan amseroedd y rheilffordd.

Cyfeiriwyd at ddeiseb gyda 3500 o lofnodion oedd o blaid achub y gwasanaethau nos, ac yn tynnu sylw at yr anawsterau oedd yn wynebu busnesau gydag esiamplau o golli gweithwyr ac ysgwyddo costau ychwanegol. Erfyniwyd am ddatrysiad gwell a modd o ail atgyfodi'r rheilffordd.

Tynnwyd sylw at Asesiad Effaith a gwblhawyd gan staff Rheilffordd Tal-y-llyn oedd yn cynnwys gwybodaeth am effaith negyddol y gwasaneth trên ar yr economi leol. Cyfeiriwyd at nifer o ymatebion oedd wedi eu derbyn gan ddefnyddwyr a sefydliadau unigol a gwnaed cais i'w wybodaeth gael ei rannu gyda'r Aelodau a Thrafnidiaeth Cymru.

Adroddwyd bod y pryderon wedi eu hamlygu mewn cyfarfod o'r Cyngor Llawn a bod y materion hefyd wedi eu cyfarch gan Mabon ap Gwynfor oedd wedi codi'r materion yn y Senedd.

Amlygodd Gail Jones y byddai'n rhannu'r negeseuon gydag Uwch Swyddogion Trafnidiaeth Cymru, ond mynegodd bod angen i'r Aelodau, a'r ASau barhau i lobio a thynnu sylw at yr effeithiau. Ategodd y bydd y trenau newydd yn cadw gwell cofnod o nifer y teithwyr fydd yn cryfhau'r dystiolaeth bod defnydd da o'r gwasanaeth.

Network Rail

Nid oedd cynrychiolydd o Network Rail yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno diweddariad ond nodwyd eu parodrwydd i dderbyn sylwadau / adborth am y gwasanaeth

Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno diweddariad

Adroddwyd bod cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Nhywyn gyda Network Rail a Thrafnidiaeth Cymru (dyddiad i'w gadarnhau). Manylion y cyfarfod i'w rannu gydag Aelodau'r Pwyllgor pan fydd y wybodaeth ar gael.

6. CWESTIYNAU FFURFIOL

Derbyniwyd cwestiynau gan Cyngor Cymuned Llanbedr

- *Enw Talwrn Bach ar yr arwydd yn ogystal â Llanbedr. Byddai hyn yn dderbyniol cyn yr haf.*
- *Bin ger y safle – ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd (bin sbwriel a bin baw cŵn)*
- *Barriers diogelwch ar y ffordd.*
- *Gwelliant i'r Shelter - angen cryfhau'r to fel nad yw yn gollwng dwr.*
- *Cynllun i brynu map o lwybrau cyhoeddus er mwyn hyrwyddo'r rhain - fel yr un yn y Pentref, a'i osod ar gefn y Shelter.*

Mewn ymateb nodwyd bod amser wedi ei roi o'r neilltu yn ystod cyfnod cau'r rheilffordd i fynd ati i wneud rhai o'r gwelliannu yn yr Orsaf. Nodwyd bod trefniadau ar gyfer adeiladu gwarchodfa newydd ar y gweill ac y byddai gwybodaeth am y warchodfa yn cael ei gyfathrebu mewn e-bost yn uniongyrchol at y Cyngor Cymuned. Byddai hyn yn cael ei gyllido drwy Gyllideb Cymunedol. Yng nghyd-destun cynnwys enw Talwrn Bach, nodwyd bod lle digonol ar yr arwydd i'w gynnwys.

Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn ynglŷn â'r bin. LHE i ail gysylltu

Cyfarfod nesaf i'w gynnal Tachwedd 2025 – LHE i drefnu

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 11:30

CADEIRYDD

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
21 Tachwedd 2025**

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE
21 November 2025**

Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES

Rydw i wedi cael cwyn gan un o drigolion o Borthmadog. Roedd wedi teithio o Borthmadog i Amwythig ac yn ôl ar y 6ed a'r 8fed o Fedi ar Reilffordd Arfordir Cambrian ac nad oedd un gair o Gymraeg yn y cyhoeddiadau trên.

I have had a complaint from a Porthmadog resident. He had traveled from Porthmadog to Shrewsbury and back on the 6th and 8th of September on the Cambrian Coast Railway and that there was not a single word of Welsh in the train announcements.

Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL

Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE

**Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for
TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD**

**Cwestiwn i HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG / Question for BRITISH
TRANSPORT POLICE**

Oddiwrth / From:

Cynghorydd Gwilym Jones, Gorllewin Porthmadog

**I'w dychwelyd at To be
returned to:**

Lowri Haf Evans
Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic
Services
Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council
Stryd y Jel, Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
01286 679 878
lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru

Erbyn / By:

10-11-2025

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
21 Tachwedd 2025

CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE
21 November 2025

Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES

A fyddai TC yn barod i weithio gyda Chyngor Tref Pwllheli i ymchwilio i'r posibilrwydd o leoli'r tram hanesyddol a dynnwyd gan geffylau (a oedd unwaith yn cysylltu gorsaf Pwllheli â Chanolfan Gelfyddydau Plas Glyn y Weddw yn Llanbedrog) o dan y canopi yng Ngorsaf Pwllheli?

Would TfW be prepared to work with Cyngor Tref Pwllheli (Pwllheli Town Council) in investigating the possibility of housing the refurbished historical horse drawn tram (that once connected Pwllheli station with Plas Glyn y Weddw Arts Centre in Llanbedrog) under the canopy at Pwllheli Station?

Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL

A fyddai Network Rail yn barod i weithio gyda Chyngor Tref Pwllheli i ymchwilio i'r posibilrwydd o leoli'r tram hanesyddol a dynnwyd gan geffylau (a oedd unwaith yn cysylltu gorsaf Pwllheli â Chanolfan Gelfyddydau Plas Glyn y Weddw yn Llanbedrog) o dan y canopi yng Ngorsaf Pwllheli?

Would Network Rail be prepared to work with Cyngor Tref Pwllheli (Pwllheli Town Council) in investigating the possibility of housing the refurbished historical horse drawn tram (that once connected Pwllheli station with Plas Glyn y Weddw Arts Centre in Llanbedrog) under the canopy at Pwllheli Station?

Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE

A fyddai'r Pwyllgor yn hapus, mewn egwyddor, i gefnogi cartrefu'r ased hanesyddol wedi'i adnewyddu hwn yng Ngorsaf Pwllheli?

Would the Committee be happy, in principle, to support the housing of this refurbished historical asset at Pwllheli Station?

Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD

Gan fod yr orsaf ym Mhwlheli yn derfynfa, a fyddai gan y pwyllgor neu eraill unrhyw wrthwynebiad i Gyngor Tref Pwllheli gael rhan/cynrychiolaeth ffurfiol ar y pwyllgor hwn?

With the station at Pwllheli being a terminus, would the committee or others have any objection to Pwllheli Town Council having a formal part/representation on this committee?

Cwestiwn i HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG / Question for BRITISH TRANSPORT POLICE

A fyddai'r BTP yn hapus pe bai rhyw fath o ddyfeisiau gwyliadwriaeth cytunedig, teledu cylch cyfyng er enghraifft, a/neu rwystrau ffisegol yn cael eu gosod i amddiffyn yr ased hanesyddol hwn?

Would the BTP be happy if some form of agreed surveillance devices, CCTV for example, and/or physical barriers were installed to protect this historical asset?	
Oddiwrth / From: Cyngor Tref Pwllheli	
I'w dychwelyd at To be returned to:	Lowri Haf Evans Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Stryd y Jel, Caernarfon Gwynedd LL55 1SH 01286 679 878 lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru
Erbyn / By:	10 Tachwedd / November 2025

PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN
21 Tachwedd 2025

CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE
21 November 2025

Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES

A oes modd i adeilad stesion Criccieth cael côf o baent? Bydde'n gwella'r edrychiad yn sylweddol. Mae gwaith da yn cael ei wneud gan Criccieth yn ei Blodau i harddu'r stesion gyda phlannu blodau a phlanhigion bwydwy ac mae addurniadau celf cymunedol yna hefyd. Mae grant wedi ei sicrhau i greu darn o waith creadigol i'r stesion ar gyfer dathliad 200 mlynedd o dan Bartneriaeth Rheilffordd y Cambrian. Bydde paentio'r stesion yn hwb sylweddol i'r gwaith gwyh yma. Gyda diolch am eich ystyriaeth.

Can the Criccieth station building be given a coat of paint? It would improve the look significantly. Good work is being done by Criccieth in Bloom to beautify the stations with the planting of flowers and edible plants and there are also community art decorations. A grant has been secured to create a piece of creative work for the station, for the 200-year celebration under the Cambrian Railway Partnership. Painting the stations would be a significant boost to this great work. With thanks for your consideration.

Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL

A oes modd i adeilad stesion Criccieth cael côf o baent? Bydde'n gwella'r edrychiad yn sylweddol. Mae gwaith da yn cael ei wneud gan Criccieth yn ei Blodau i harddu'r stesion gyda phlannu blodau a phlanhigion bwydwy ac mae addurniadau celf cymunedol yna hefyd. Mae grant wedi ei sicrhau i greu darn o waith creadigol i'r stesion ar gyfer dathliad 200 mlynedd o dan Bartneriaeth Rheilffordd y Cambrian. Bydde paentio'r stesion yn hwb sylweddol i'r gwaith gwyh yma. Gyda diolch am eich ystyriaeth.

Can the Criccieth station building be given a coat of paint? It would improve the look significantly. Good work is being done by Criccieth in Bloom to beautify the stations with the planting of flowers and edible plants and there are also community art decorations. A grant has been secured to create a piece of creative work for the station, for the 200-year celebration under the Cambrian Railway Partnership. Painting the stations would be a significant boost to this great work. With thanks for your consideration.

Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE

Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD

Cwestiwn i HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG / Question for BRITISH TRANSPORT POLICE	
Oddiwrth / From: Dr Catrin Jones, Clerc ar ran Cyngor Tref Criccieth.	
I'w dychwelyd at To be returned to:	Lowri Haf Evans Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council Stryd y Jel, Caernarfon
	Gwynedd LL55 1SH 01286 679 878 lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru
Erbyn / By:	10-11-2025